CYPE(5)-06-20 - Papur 1

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/KW5952/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Ionawr 2020

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd yn gofyn am wybodaeth i helpu'r Pwyllgor i graffu ar y broses o wella ysgolion a chodi safonau. Rwyf wedi ymdrin â phob un o'r meysydd a godwyd gan y Pwyllgor isod ac edrychaf ymlaen at eu trafod ymhellach â'r Pwyllgor ar 13 Chwefror.

**Dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwella ysgolion**

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i greu system o ysgolion cydweithredol sy'n hunanwella yng Nghymru. Yn greiddiol i'r broses hon, fel y nodir yng nghenhadaeth ein cenedl, mae gwaith i ddatblygu trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r consortia rhanbarthol yn parhau i weithio, ar ran awdurdodau lleol, i arwain, ysgogi a chydgysylltu gwelliannau mewn ysgolion ledled y rhanbarth. Buont hefyd yn allweddol wrth helpu i roi diwygiadau a gwelliannau ehangach ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn ogystal â chwarae rhan allweddol wrth ddylunio, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm newydd, maent wedi gwneud y canlynol: tywys a chefnogi ysgolion drwy'r broses o ddiwygio cymwysterau TGAU; ysgogi cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n ymgymryd â'r CPCP; a rhoi dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol ar waith.

Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol o hyd i hybu safonau uchel yn eu hysgolion. Maent yn arfer y cyfrifoldeb hwn drwy ddirprwyo gweithgareddau gwella ysgolion i'r consortia rhanbarthol, a all fanteisio ar y gallu a'r adnoddau a'r arbedion effeithlonrwydd uwch sy'n gysylltiedig â gweithio ledled rhanbarth; bu hyn yn hanfodol wrth helpu i roi'r diwygiadau i'r cwricwlwm ar waith. Ar yr un pryd, gan mai nhw eu hunain a sefydlodd y consortia rhanbarthol, mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod rhanbarthau yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w hysgolion. Mae gan y consortia rhanbarthol fodelau llywodraethu a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chyflawni sydd ychydig yn wahanol; gwyddom fel rhan o fodel ERW, yn arbennig, fod cynghorwyr herio yn cael eu cyflogi o hyd gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r consortiwm, a bod ERW yn gweithredu fel cydgysylltydd.

Yn 2016, cadarnhaodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wrthym fod y system yn gweithio, gan dynnu sylw at symudiad cadarnhaol tuag at ddull gwella ysgolion rhanbarthol. Mae'r OECD, Estyn ac ysgolion oll wedi nodi ein bod yn meithrin gallu, gan gynnig cyfleoedd i arweinwyr ein hysgolion arwain a gwella eu hysgolion eu hunain. Mae'r dystiolaeth o welliannau yn y system yn ategu hyn. Er enghraifft, yn 2014, roedd angen y lefelau cymorth uchaf ar 33% o ysgolion cynradd; erbyn 2018, roedd hyn wedi gostwng i 12%. Ar gyfer ysgolion uwchradd, gostyngodd y gyfran o ysgolion o 43% i 31%.

Mae'r consortia rhanbarthol wedi helpu i wella gallu ysgolion i hunanwella, ac felly wella deilliannau disgyblion, mewn cyfnod cymharol fyr o amser. Drwy amrywiaeth o rwydweithiau ysgolion, a ariennir gan grantiau Llywodraeth Cymru ac a gydgysylltir gan y consortia, mae mwy o gyfleoedd i arweinwyr ysgolion ac athrawon fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol a chymorth gwella ysgolion gan eu cymheiriaid, gan helpu i feithrin diwylliant o gydweithio yn hytrach na chystadlu yn y system. Rhoddodd y dystiolaeth a gawsoch gan y consortia awgrym o'r amrywiaeth eang o weithgareddau gwella o dan arweiniad ysgolion sy'n mynd rhagddynt bellach ledled Cymru. Mae'r sefyllfa wedi newid yn sylweddol ers dechrau'r trefniadau gweithio rhanbarthol.

Mae monitro perfformiad pob ysgol yn eu hardal, a threfnu a darparu cymorth i'r ysgolion hynny y mae ei angen arnynt, yn parhau'n rhan greiddiol o rôl y consortia. Byddai hyn yn cynnwys yr ysgolion hynny a oedd yn rhan o Her Ysgolion Cymru; ond yn y pen draw, bydd lefel y cymorth a roddir i unrhyw ysgol unigol yn dibynnu ar farn broffesiynol a gaiff ei llunio am ei pherfformiad a'i gallu i wella, gan ystyried amrywiaeth eang o ddata a gwybodaeth.

Mae cyfarfodydd Gwerthuso a Gwella a gynhelir bob tymor rhwng Llywodraeth Cymru, y rhanbarthau a'r awdurdodau lleol yn cynnig y cyfle i mi a'm swyddogion graffu ar y ffordd y mae'r consortia yn cyflawni'r rôl hon. Yn ogystal, nododd *Arolygiaeth Dysgu* – adolygiad annibynnol Graham Donaldson o Estyn – yn glir y bydd ein llwyddiant wrth symud tuag at system hunanwella yn dibynnu i raddau helaeth ar berfformiad yr haen ganol wrth ychwanegu gwerth at berfformiad ysgolion. Felly, bydd arolygiadau Estyn o awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn parhau a byddant yn cynnwys ffocws ar sut y maent yn cyfrannu at roi diwygiadau ar waith.

**Trefniadau gwerthuso a gwella**

Cyhoeddais drefniadau gwerthuso a gwella drafft ym mis Chwefror 2019. Mae'r trefniadau newydd hyn yn anelu at greu'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen i systemau ac o ran diwylliant er mwyn sicrhau llwyddiant y Cwricwlwm i Gymru. Bydd trefniadau hunanwerthuso cadarn a pharhaus, wedi'u hategu gan ddeialog broffesiynol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, er mwyn cytuno ar flaenoriaethau gwella ysgolion a'r cymorth sydd ei angen arnynt, yn rhan holl bwysig o'r trefniadau newydd. Bydd amrywiaeth eang o wybodaeth o ansawdd uchel am ysgolion, a rhannau eraill o'r system, yn sail i'r trefniadau, a bydd angen defnyddio'r wybodaeth hon mewn ffordd fwy amserol, deallus a chefnogol.

Yn ogystal â bod yn gam cadarnhaol tuag at system fwy cydweithredol a phriodol sy'n perfformio'n well, mae'r newidiadau hyn hefyd yn ymateb i rai o ganlyniadau negyddol anfwriadol ein trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd blaenorol, a mesurau perfformiad cysylltiedig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- dewis culach o ran y cwricwlwm yn y sector cynradd a'r sector uwchradd;

- ffocws gormodol ar y ffin rhwng gradd C a D mewn cymwysterau TGAU (nad oedd yn cydnabod cyflawniadau dysgwyr islaw nac uwchben y trothwy hwnnw);
- y ffordd y mae'r defnydd o ddata meincnodi wedi creu cystadleuaeth rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn hytrach na'u hannog i gydweithio;
- llwyth gwaith cynyddol a diangen ar athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith na'r budd angenrheidiol i ddysgwyr.

Bydd y trefniadau newydd yn cyflwyno diwylliant lle y bydd hunanwerthuso a gwella yn ystyried y profiad dysgu cyfan, gan wella safonau i bob un o'n dysgwyr, ni waeth beth fo'i fan cychwyn na'i anghenion unigol. Bydd y ffocws ar gefnogi cynnydd dysgwyr, yn hytrach na llunio barnau. Bydd y dull newydd hwn, er enghraifft, yn sicrhau y caiff perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ym mhob rhan o'r system, ac mewn ysgolion unigol, ei gydnabod yn ddigonol. Caiff perfformiad ysgolion ei ystyried yn ei ystyr ehangaf, a chaiff ysgolion eu gwerthuso o fewn eu cyd-destun unigol, a'u cefnogi gan drefniadau cynllunio gwelliant, prosesau ar gyfer pennu targedau a chymorth wedi'u teilwra'n benodol ar eu cyfer.

Ni fydd unrhyw gyfaddawd rhwng y trefniadau gwerthuso a gwella hyn, y broses o ddatblygu system hunanwella a dull atebolrwydd cadarn sy'n cyfrannu at wella safonau. Bydd atebolrwydd democrataidd a threfniadau arolygu yn parhau'n nodwedd bwysig o'r system ysgolion, wedi'u llywio gan well gwybodaeth am berfformiad cyffredinol ysgolion, yn hytrach na llai o wybodaeth o'r fath; a chan well defnydd o wybodaeth na'r hyn a welir ar hyn o bryd mewn mannau. Mae fy swyddogion, gyda chymorth CCAC a chan weithio'n agos â CLlLC, y rhanbarthau ac Estyn, eisoes wedi dechrau gwaith gydag aelodau o awdurdodau lleol a chadeiryddion craffu er mwyn ystyried nodweddion gwaith craffu effeithiol o dan y trefniadau newydd. Rydym wedi cynnal sesiynau cychwynnol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth, a chafwyd lefelau presenoldeb da iawn. Fe'u croesawyd gan aelodau Cabinet ledled Cymru. Drwy'r gwaith hwn, byddwn yn atgyfnerthu ac yn gwella atebolrwydd ysgolion, yn unol â'r egwyddorion a nodwyd gennyf uchod.

Yn yr un modd, mae rôl Estyn hefyd yn parhau i ddatblygu er mwyn cefnogi ein system ddiwygiedig. Yn dilyn y flwyddyn bontio a gynlluniwyd ar eu cyfer yn 2020-21, bydd arolygiadau ysgolion yn ailddechrau o fis Medi 2021 o dan fframwaith newydd sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm a'r trefniadau hunanwerthuso newydd. Y bwriad wedyn yw y bydd Estyn yn ymweld ag ysgolion bob 3-4 blynedd, yn hytrach na'r cylch presennol o saith mlynedd, er mwyn rhoi barn annibynnol, gan gefnogi prosesau gwella'r ysgolion eu hunain. Bydd hyn hefyd yn cynnig gwybodaeth fwy cyfredol i rieni am ysgolion.

Bydd y dull hwn, sy'n dal i ddatblygu, yn cynnwys newid diwylliant ar bob lefel, wrth i ni symud o system sydd bellach yn fwy seiliedig ar gydymffurfiaeth i fodel o werthuso a gwella sy'n debycach i systemau addysg llwyddiannus ledled y byd. O fewn y cyd-destun hwn, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru, Estyn a CLlLC ar y cyd at y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2019, er mwyn eu hysbysu o'r cyfeiriad newydd. Diben yr ohebiaeth ar y cyd oedd atgyfnerthu'r neges, cyn cyhoeddi canlyniadau arholiadau a phrosesau craffu lleol yn ystod tymor yr hydref, fod angen symud oddi wrth bwyslais anghymesur ar nifer bach o fesurau perfformiad unigol, nad ydynt bob amser yn rhoi blaenoriaeth i fuddiannau pennaf y dysgwr. Roedd hyn yn dilyn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 19 Chwefror 2019.

Hysbyswyd awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn lle hynny, y dylid defnyddio amrywiaeth eang o ddata a gwybodaeth anghyfanredol wrth gyflwyno adroddiadau ar berfformiad ysgolion a gwerthuso perfformiad ysgolion unigol, ac y dylid defnyddio'r gwaith dadansoddi hwn fel sail ar gyfer gwaith craffu lleol ac ar gyfer cytuno ar flaenoriaethau gwella a lefelau cymorth ysgolion. Drwy ganolbwyntio ar ddata cyfanredol ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel ranbarthol, mae perygl y bydd atebolrwydd ysgolion yn gwbl

seiliedig ar sut mae eu data yn cymharu â chyfartaleddau awdurdodau lleol a chyfartaleddau rhanbarthol, ac na roddir digon o ystyriaeth i'w data a'u cyd-destun ehangach. Bydd defnyddio data anghyfanredol yn osgoi'r fath sefyllfa. Nid yw a wnelo â lleihau lefel yr her na thrylwyredd yn y system ysgolion. Yn hytrach, mae a wnelo â'r angen i ddefnyddio gwybodaeth mewn ffordd gynyddol ddeallus, priodol ac ystyrlon.

Mae'n bwysig cydnabod y rhan bwysig y bydd awdurdodau lleol yn ei chwarae, gan gydweithio â'r rhanbarthau, er mwyn sicrhau bod dulliau gwella ysgolion yn gynaliadwy. Felly, mae parhau i feithrin gallu ym mhob rhan o'r system yn holl bwysig. Yn y cyd-destun hwn, bu nifer o arolygiadau diweddar gan Estyn o wasanaethau addysg awdurdodau lleol yn siomedig. Felly, mae fy swyddogion yn ystyried sut mae modelu dulliau ac egwyddorion y trefniadau gwerthuso a gwella ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel ranbarthol, gan gynnwys hunanwerthuso effeithiol gan ddefnyddio data priodol, er mwyn sicrhau bod y newid diwylliant i'w weld ym mhob haen o'n system.

***Tystiolaeth, data a gwybodaeth ehangach***

Egwyddorion sylfaenol ein trefniadau gwerthuso a gwella drafft newydd yw y bydd y system ddiwygiedig yn: deg, cydlynol, cymesur a thryloyw. Felly er ein bod yn awyddus i symud oddi wrth system sy'n canolbwyntio'n ormodol ar fesurau trothwy unigol lle mae llawer yn y fantol, ni ddaw'r newid pwysig ac angenrheidiol hwn mewn diwylliant ar draul tryloywder, atebolrwydd democrataidd a hyder y cyhoedd.

Rwyf am nodi'n glir nad cuddio data yw fy mwriad, ond mai'r nod yw sicrhau y gall pob rhan o'r system, o benaethiaid i rieni, gael gafael ar y data mwyaf priodol a defnyddiol at y dibenion dan sylw. Bydd hynny'n cynnwys gwybodaeth a ddefnyddir: gan ysgolion i ysgogi gwelliant yn eu perfformiad; gan gyrff llywodraethu, awdurdodau lleol ac Estyn i hwyluso atebolrwydd a threfniadau craffu democrataidd; gan rieni, plant a chymunedau i'w helpu i ddeall eu hysgolion, gan feithrin hyder y cyhoedd.

Yn aml, mae gan y wybodaeth a ddefnyddir o dan y trefniadau presennol ddibenion lluosog sy'n gysylltiedig â chyfres unigol o fesurau (e.e. ei defnyddio er mwyn asesu cynnydd dysgwyr unigol, prosesau hunanwerthuso, trefniadau craffu awdurdodau lleol a chyhoeddi). Defnyddiwyd mesurau hefyd ar wahanol lefelau o'r system, gan eu cyfuno ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r ffaith bod yr un dangosyddion wedi cael eu defnyddio at y dibenion lluosog hyn wedi arwain at rai canlyniadau anfwriadol, lle na roddwyd budd dysgwyr unigol bob amser wrth wraidd y penderfyniadau a wnaed ynghylch darpariaeth y cwricwlwm, dosbarthu cymorth a chynllunio gwelliannau. Mae'n rhaid i hyn newid os ydym yn benderfynol o sicrhau'r deilliannau gorau i'n dysgwyr.

Er bod trefniadau ar gyfer gwerthuso a gwella yn y dyfodol yn parhau i gael eu datblygu, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cymerwyd nifer o 'gamau galluogi' fel rhan o'r cyfnod pontio:

i. Mae rhoi'r gorau i'r arfer o gyhoeddi data o asesiadau athrawon ar lefel ysgolion ac ar lefel awdurdodau lleol, a'u defnydd o fewn mesurau perfformiad ysgolion, wedi sicrhau uniondeb eu diben bwriadedig.
ii. Rhoddwyd dangosyddion perfformiad interim Cyfnod Allweddol 4 ar waith eleni, er mwyn helpu i ymdrin â rhai o ganlyniadau anfwriadol mwyaf dybryd mesurau blaenorol, wrth i'r trefniadau tymor hwy gael eu hystyried.
iii. Roedd diwygiadau i'r gofynion ar gyfer pennu targedau Cyfnod Allweddol 4 yn gydnaws â'r newidiadau hyn, gan symud oddi wrth bwyslais anghymesur ar nifer bach o fesurau perfformiad i amrywiaeth ehangach o wybodaeth sy'n rhoi darlun gwell o'r profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd,

gan ei gwneud hi'n bosibl hefyd i bob ysgol gael ei hystyried o fewn ei chyd-destun unigol.

iv. Mae newidiadau i Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer awdurdodau lleol wedi cael gwared ar y gallu i gymharu gwybodaeth gyfanredol am berfformiad awdurdodau lleol, er mwyn bod yn fwy cydnaws â'r datblygiadau polisi diweddaraf, o ran y math o ymddygiad rydym am ei hybu.

Mae dechrau prosiect ymchwil i ystyried anghenion gwybodaeth yn y dyfodol er mwyn cefnogi hunanwerthuso a gwelliant parhaus ar bob lefel yn y system ysgolion yn allweddol i gam nesaf y gwaith hwn. Mae hyn yn fwy na diffinio mesurau perfformiad safonedig ac mae'n briodol defnyddio dull 'seiliedig ar dystiolaeth' mewn perthynas â'r mater hwn. Y nod fydd helpu i nodi'r wybodaeth sydd ei hangen at wahanol ddibenion ym mhob rhan o'r system ysgolion. Ar yr un pryd, mae'n bwysig na fydd gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar ran arall o'r system.

Hoffwn hefyd i'r gwaith ymchwil hwn nodi'r systemau mwyaf effeithiol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth, er mwyn sicrhau ei bod ar gael ac yn hygyrch at wahanol ddibenion o fewn y system ysgolion (e.e. i'w defnyddio wrth hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau neu i'w chyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder). Mae swyddogion wrthi'n llunio'r fanyleb ymchwil derfynol; caiff y broses o gaffael contractwr ymchwil ei rhoi ar waith yn ystod y misoedd nesaf, a bydd angen i'r gwaith fynd rhagddo yn unol â gofynion diwygio'r cwricwlwm.

Mae angen i ni sicrhau bod pob rhanddeiliad, yn enwedig ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn ymddiried yn y system a'r trefniadau y byddwn yn eu rhoi ar waith. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith ymchwil yn seiliedig ar y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol ledled Cymru, a thu hwnt lle y bo'n briodol; a bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys fel rhan o ddull gweithredu diwygiedig a ddyluniwyd ar y cyd mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth at ddibenion gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae'n bwysig ein bod yn llwyddo yn hyn o beth, gan y bydd yn llywio ac yn cefnogi rhannau helaeth o'n gwaith yn y dyfodol.

***Profi'r trefniadau gwerthuso a gwella***

Hoffwn fanteisio hefyd ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei arwain i brofi elfennau eraill o'r trefniadau gwerthuso a gwella drafft.

Caiff agwedd gyntaf y gwaith hwn ei harwain gan fy swyddogion, Estyn a'r consortia rhanbarthol, gyda chymorth 22 o ysgolion (un o bob awdurdod lleol). Maent yn profi sawl elfen o'r trefniadau newydd, gan ganolbwyntio ar hunanwerthuso, gwella a chefnogi. Mae'r gwaith yn ystyried y canlynol:

- effaith y trefniadau newydd ar leihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth;
- y dystiolaeth a/neu'r dangosyddion a all helpu i hwyluso prosesau hunanwerthuso effeithiol;
- y rolau, y cyfrifoldebau a'r ymddygiad sydd eu hangen gan bob partner yn y system er mwyn galluogi ymreolaeth broffesiynol a chymorth priodol er mwyn gwella.

Maent hefyd yn datblygu 'Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol' a fydd yn hanfodol wrth helpu ysgolion i roi trefniadau hunanwerthuso effeithiol ar waith. Bydd yn chwarae rhan wrth feithrin gallu ym mhob rhan o'r system drwy ganolbwyntio ar atgyfnerthu arweinyddiaeth, arweinyddiaeth addysgu, llesiant dysgwyr a staff, annog arferion arloesol a chefnogi dysgu proffesiynol. Erbyn diwedd tymor yr haf, rwyf yn awyddus i'r gwaith hwn ein tywys o ran sut y gellir cyflwyno'r adnodd hwn yn ehangach i ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â rhoi sicrwydd y bydd yn helpu i roi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith.

Mae'r ail agwedd yn ymwneud â phrofi dull amlasiantaeth o gefnogi ysgolion, yn enwedig y rheini sy'n peri pryder, neu y mae risg y byddant yn peri pryder. Yn ddiau, mae'r broses gategoreiddio wedi gwella dealltwriaeth awdurdodau lleol a'r rhanbarthau o gryfderau ysgolion unigol a'r meysydd y mae angen iddynt eu gwella. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau a welsom ym mhob rhan o'r system ysgolion yn gyffredinol, rwyf yn parhau i bryderu am yr ysgolion hynny, yn enwedig yr ysgolion uwchradd hynny, y mae angen y lefelau cymorth uchaf arnynt o hyd.

Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â'r ysgolion hyn yn aml yn gymhleth, gan gynnwys: anawsterau ariannol; ad-drefnu; a phroblemau o ran ymddygiad a phresenoldeb. Felly, ni fydd y consortia na'r ysgolion ar eu pen eu hunain yn gallu gwella'r sefyllfa. Mae'n debygol y bydd angen partneriaethau cadarn yn cynnwys pob rhan o'r haen ganol ar yr achosion hyn, gan gynnwys gan yr awdurdodau lleol sydd â phwerau statudol i ymyrryd.

Felly, rydym yn treialu dull amlasiantaeth o'r fath â nifer bach o ysgolion uwchradd ledled Cymru: dwy o bob rhanbarth. Ar gyfer pob ysgol, bydd panel amlasiantaeth yn cydweithio er mwyn helpu'r ysgol, gan nodi ei phroblemau a'i hanghenion, cytuno arnynt a llunio cynllun cymorth wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer yr ysgol. Dylai'r cynllun cymorth hwn helpu i hwyluso cytundeb cyfunol o ran gwelliannau cynaliadwy ar gyfer yr ysgol.

Dylai'r dull hwn olygu unwaith y bydd awdurdodau lleol a rhanbarthau wedi nodi'r ysgolion hynny y mae angen cymorth arnynt, y byddant yn gallu manteisio ar yr arbenigedd a'r adnoddau sylweddol sydd ar gael ym mhob rhan o'n haen ganol, gyda phawb yn gytûn ac yn anelu at yr un nod. Bydd hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru ac Estyn i asesu sut y bydd y dull yn gweithio fel rhan o'r trefniadau Gwerthuso a Gwella ehangach, gan gynnwys dyfodol y broses gategoreiddio, yn ogystal â llywio camau gweithredu Estyn mewn ymateb i argymhellion *Arolygiaeth Dysgu*.

Mewn ymateb i argymhellion y pwyllgor mewn perthynas â Her Ysgolion Cymru, yn adroddiad *Cyrraedd y Nod?*, dywedais, yn ogystal â dysgu o'r rhaglen honno, ei bod yn bwysig i ni edrych tuag at y dyfodol. Mae'r dull gweithredu a nodwyd gennyf uchod – sef y pwyslais ar hunanwerthuso er mwyn gwella i bob ysgol, yn ogystal â'r dull amlasiantaeth i'r ysgolion hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf – yn gwneud yn union hynny. Yn union fel y gwnaethoch argymell y dylai unrhyw raglen gwella ysgolion yn y dyfodol gael ei chynnal am gyfnod digonol o amser i gael effaith barhaus, mae'r trefniadau hyn yn anelu at sicrhau gwelliannau hirdymor a chynaliadwy mewn ysgolion, yn hytrach nag atebion byrdymor.

**PISA 2018**

Yn dilyn canlyniadau siomedig PISA 2016, derbyniais gyngor yr OECD ar ein diwygiadau addysg. O ganlyniad, aethom ati i ddarparu'r buddsoddiad mwyaf erioed yn ein hathrawon, y rhaglen dysgu proffesiynol fwyaf erioed, ac rydym wedi parhau i ddiwygio ein cwricwlwm. Mae cenhadaeth ein cenedl wedi gosod y trywydd cywir a gallwn barhau i wella, ac mae'n rhaid i ni wneud hynny, gan adeiladu ar y momentwm presennol.

Fel y dywedais yn fy natganiad i'r Senedd ym mis Rhagfyr, roedd canlyniadau PISA 2018 yn brawf o waith caled ac ymroddiad ein hathrawon a'n myfyrwyr. Dangoswyd am y tro cyntaf, bod Cymru bellach yn y brif ffrwd ryngwladol, gan gyflawni'r cyfartaledd rhyngwladol ar gyfer Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Rydym wedi gwella ym mhob pwnc ac mae ein safle o gymharu â gwledydd eraill wedi gwella. Mae gennym fwy o berfformwyr uchel nag o'r blaen hefyd: cynyddodd nifer y myfyrwyr â pherfformiad uchel mewn darllen o 3% yn 2015 i 7% yn 2018, a chafwyd cynnydd o 4% i 7% mewn mathemateg a chynnydd o 4% i 5% mewn gwyddoniaeth.

Yn hanfodol, ar yr un pryd â'r gwelliannau hyn, lleihaodd y bwlch cyrhaeddiad darllen yng Nghymru. Roedd bwlch o 34 yn 2018, gostyngiad o 41 yn 2015, sy'n sylweddol llai na chyfartaledd yr OECD. Rwyf yn falch bod disgyblion yng Nghymru yn gallu goresgyn anfanteision eu cefndir yn well, o gymharu â disgyblion yng ngwledydd eraill yr OECD a'n bod yn bwrw ati o ddifrif i gysylltu tegwch â rhagoriaeth.

Mae'r canlyniadau yn cynnig cyfres gyfoethog o wybodaeth a meysydd i ni ymchwilio iddynt a chanolbwyntio arnynt ymhellach. Er enghraifft, mae'r bwlch mewn perfformiad darllen rhwng bechgyn a merched yn bryder cyffredin ym mhob gwlad sy'n cymryd rhan. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob un gwlad, gan gynnwys Cymru. Yng Nghymru, roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng sgoriau darllen cymedrig bechgyn (470) a sgoriau merched (497). Er bod bechgyn yn perfformio ychydig yn well na merched mewn mathemateg, nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd y canlyniadau yn gadarnhaol, ond nid oeddent yn berffaith. Er enghraifft, er y bu gwelliannau o ran cyfran y perfformwyr uchel ym mhob pwnc, nid ydym wedi cyrraedd cyfartaledd yr OECD ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr eto. Ond byddwn yn parhau i roi ein diwygiadau ar waith, ar ôl gwneud cynnydd clir yn erbyn y tri amcan a bennwyd gennyf yng nghynllun gweithredu cenhadaeth ein cenedl: codi safonau; mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad; a sicrhau system sy'n destun balchder cenedlaethol ac yn meithrin hyder y cyhoedd. Mae'n bwysig ein bod yn dathlu llwyddiant, ond mae'n rhaid i ni barhau'n gadarn ar hyd y llwybr diwygio, yn hytrach na gorffwys ar ein rhwyfau.

**Cyrhaeddiad mewn cymwysterau Safon Uwch/UG a TGAU yn 2019 ac yn ystod blynyddoedd blaenorol**

Datgelodd canlyniadau cyfres arholiadau haf 2019 sawl maes o gynnydd pwysig o ran cyflawniadau dysgwyr yng Nghymru. Yn arbennig, cyrhaeddodd nifer cyffredinol y disgyblion a gyflawnodd y graddau uchaf mewn cymwysterau Safon Uwch ei lefel uchaf erioed, gyda 9 y cant ohonynt yn cyflawni A* a mwy na chwarter yn cyflawni A* neu A. Mae Cymru bellach yn cyflawni mwy o raddau A* nag unrhyw rai o ranbarthau Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd dros dri chwarter y graddau a ddyfarnwyd yn raddau A* i C, gyda chynnydd amlwg mewn pynciau STEM allweddol, sef Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Mae hyn yn newyddion da i ddysgwyr yng Nghymru, ac yn sefydlog o gymharu â 2018 ac yn parhau'n uchel yng nghyd-destun y duedd hanesyddol.

O ran cymwysterau TGAU, cafwyd gwelliant yng nghanlyniadau cyffredinol yr haf, yn ogystal â'r canlyniadau ar gyfer sawl pwnc unigol, ers 2018. Fodd bynnag, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu sawl newid pwysig yn y system sy'n ei gwneud hi'n anodd llunio cymariaethau yr un mor ystyrlon. Mae'r rhain yn cynnwys y camau a gymerwyd i atal y defnydd amhriodol o drefniadau cofrestru cynnar a newidiadau i'r arholiadau eu hunain, y mae ysgolion wedi addasu iddynt wrth iddynt gael eu cyflwyno'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Cyhoeddir y canlyniadau terfynol o ran cyrhaeddiad mewn cymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru mewn datganiadau ystadegol fel dangosyddion ar gyfer y carfanau oedran dysgwyr perthnasol, ac maent ar gael yma: https://llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2018-i-awst-2019. Er bod y datganiadau hyn yn rhoi darlun defnyddiol o berfformiad cyffredinol, gallant hefyd guddio rhai o'r tueddiadau cyffredinol ar gyfer y graddau a gyflawnwyd a'r canlyniadau ar gyfer pynciau unigol.

Yn unol â'n hymrwymiad i ddatblygu dull gweithredu newydd ar y cyd mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth fel rhan o drefniadau gwerthuso a gwella, byddai angen ymgynghori'n ffurfiol ar unrhyw newidiadau i'r defnydd a wneir o ddata cyfanredol is-genedlaethol, neu unrhyw drefniadau ar gyfer cyhoeddi data o'r fath, ac unrhyw newidiadau sylweddol eraill, er mwyn gallu ystyried y goblygiadau i bob defnyddiwr yn llawn, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ni fwriedir gwneud unrhyw newidiadau o'r fath i ddata arholiadau CA4.

### *Cymwysterau UG a Safon Uwch*

Gostyngodd cyfanswm nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch ac UG yn ystod haf 2019. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 8% a 6% yn y boblogaeth o bobl ifanc 17 ac 18 oed, yn y drefn honno, ac mae'n debygol mai dyma'r prif ffactor a ysgogodd y gostyngiad mewn cofrestriadau.

Roedd canlyniadau cymwysterau UG yn sefydlog yn 2018/19 gyda chynnydd nodedig yn nifer y graddau A*-C ar gyfer sawl pwnc. Erys y gyfradd llwyddiant gyffredinol, sef A-E, ar gyfer cymwysterau UG yn sefydlog, ar 90%.

Canran y disgyblion a gofrestrodd ar gyfer cymwysterau cyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch, a gyflawnodd dair gradd A*-A yn 2018/19, yw 13.2 y cant, i lawr 0.2 pwynt o gymharu â lefel hanesyddol uchel y llynedd. Canran y disgyblion a gofrestrodd ar gyfer cymwysterau cyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch, a gyflawnodd dair gradd A*-C, yw 58.4 y cant, i fyny 0.4 pwynt, sy'n well na blynyddoedd blaenorol.

I'r rheini a gofrestrodd ar gyfer cymwysterau cyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch, a gyflawnodd drothwy Lefel 3 (cyfwerth â dwy radd A*-E Safon Uwch), y gyfradd llwyddiant yw 97.9 y cant, sef cynnydd o 0.4 pwynt o gymharu â'r llynedd, sy'n dangos gwelliant parhaus ers 2016/17. Y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yw 741.3, sef cynnydd o 1.2 pwynt, yn unol â'r gwelliant parhaus ers 2016/17.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad disgyblion 17 oed ers 2014/15.

Cyrhaeddiad disgyblion 17 oed mewn arholiadau yn ôl blwyddyn 2015-2019

| | Nifer sy'n cofrestru ar gyfer cymhwyster sydd gyfwerth â 2 Safon | Canran a gyrhaeddodd trothwy Lefel 3 (2) | Nifer y disgyblion 17 oed (3) | Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach (4) | Canran a gofrestrodd ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch ac a gyflawnodd 3 gradd A*-A | Canran a gofrestrodd ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch ac a gyflawnodd 3 gradd A*-C | Canran a gyflawnodd y Tystysgrif Her Sgiliau lefel Uwch | Canran a gyflawnodd y Fagloriaeth Cymru lefel Uwch |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014/15 | 11,838 | 97.0 | 13,473 | 799.7 | .. | .. | .. | .. |
| 2015/16 | 10,804 | 98.0 | 12,066 | 823.2 | 6.7 | 38.3 | .. | .. |
| 2016/17 | 10,152 | 97.1 | 11,434 | 730.6 | 10.5 | 54.7 | .. | .. |
| 2017/18 | 9,452 | 97.6 | 10,613 | 740.1 | 13.4 | 57.9 | 69.2 | 59.7 |
| 2018/19 | 9,148 | 97.9 | 10,232 | 741.3 | 13.2 | 58.4 | 71.6 | 61.7 |

1. Nifer y disgyblion 17 oed a gofrestrodd ar gyfer cymwysterau cyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch. Heb gynnwys colegau AB.
2. Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd ar gyfer cymwysterau cyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch a gyflawnodd drothwy Lefel 3. Er mwyn cyflawni trothwy Lefel 3, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni graddau cyfwerth â 2 radd A-E Safon Uwch. Heb gynnwys disgyblion o golegau AB.
3. Hyd at 1999/2000, roedd y cymwysterau a enillwyd gan ddisgyblion 16, 17 ac 18 oed yn cael eu cofnodi. O 2000/01, cafodd yr holl gymwysterau a enillwyd gan ddisgyblion 17 oed eu cofnodi, ac unrhyw arholiadau a safwyd yn gynharach. Nid yw'n cynnwys disgyblion o Golegau Addysg Bellach.
4. Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach ar gyfer disgyblion 17 oed. Yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer disgyblion 16-18 oed yng Nghymru.

### *Cyfnod Allweddol 4*

Eleni, rydym yn gweld canlyniadau cyntaf naw cymhwyster diwygiedig, sy'n anelu at sicrhau bod disgyblion yn meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer y byd modern. Gallwn ymfalchïo yn y ffordd y llwyddodd ein disgyblion a'n hathrawon i ymdopi â'r broses o gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn sy'n chwarae rhan hanfodol wrth godi safonau.

Fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i ysgolion yng Nghymru, yn lle rhannau o'r system atebolrwydd etifeddol, cyflwynwyd sawl mesur perfformiad interim ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 hefyd ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol. Yn ogystal, caiff pob mesur eleni ei gyfrifo ar sail cofrestriad cyntaf disgybl ar gyfer cymhwyster, yn hytrach na'i gofrestriad gorau fel yn flaenorol. O ganlyniad, nid yw'n briodol llunio cymariaethau dros amser, ond mae'n bwysig wrth helpu i sicrhau bod ffocws cadarn ar fuddiannau pennaf dysgwyr.

*Mesurau perfformiad etifeddol*

Ni ellir cymharu data cyn 2016/17 yn uniongyrchol, o ganlyniad i newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff y dangosyddion eu cyfrifo. Canran y dysgwyr a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 cynwysedig (5 x TGAU gradd A*-C, gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg) yn 2019 yw **53.8** y cant. Ar gyfer y rheini a gyflawnodd drothwy Lefel 1, y lefel cyflawniad yw **92.8** y cant. Canran y disgyblion a gyflawnodd 5 x gradd A*-A yw **18.0** y cant.

| Mesur | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 94.4 | 93.7 | 92.8 |
| Lefel 2 cynwysedig | 55.7 | 56.5 | 53.8 |
| 5 x A*- A | 16.8 | 18.0 | 18.0 |

*Mesurau perfformiad interim newydd Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2019*

Mae'r mesurau perfformiad interim a gyflwynwyd eleni ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn symud oddi wrth fesurau sy'n seiliedig ar drothwyon, i'r rheini sy'n seiliedig ar y pwyntiau a gyflawnir gan y garfan gyfan. Y bwriad yw darparu dull gweithredu mwy cynhwysol, gan y caiff ysgolion eu gwerthuso yn ôl y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob disgybl. Mae'r mesurau yn cydnabod unigolion sy'n cyflawni graddau uwch, yn ogystal ag ymdrechion disgyblion nad ydynt yn cyflawni gradd C, ac yn symud y ffocws oddi ar y disgyblion sy'n cyrraedd lefel drothwy ofynnol, i godi ein dyheadau yn fwy cyffredinol.

Mae pob mesur yn nodi gradd disgybl ac yn ei throsi'n sgôr pwyntiau. Wedyn, defnyddir y gwerth cymedrig ar gyfer y garfan gyfan fel y mesur. Cyfrifir y sgôr Capio 9 gan ddefnyddio'r naw canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl, gyda gofynion pwnc-benodol mewn Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth. Dyluniwyd y mesurau er mwyn osgoi culhau dewis dysgwyr, gan felly ddiwallu anghenion dysgwyr unigol a chefnogi eu cyflawniadau yn well.
O hydref 2019, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar bum prif fesur:

- Sgôr pwyntiau Capio 9
- Y mesur Llythrennedd
- Y mesur Rhifedd
- Y mesur Gwyddoniaeth
- Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Yn 2019, perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob un o'r dangosyddion hyn. Y sgôr pwyntiau Capio 9 gyfartalog (fersiwn y mesur interim) yw 354.4. Fel y nodir uchod, oherwydd newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff y dangosyddion eu cyfrifo, ni ellir llunio cymariaethau uniongyrchol â mesurau perfformiad cyn 2016/17. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd Tystysgrif Her Sgiliau newydd yn 2016/17, felly dim ond yn ôl at y dyddiad hwn y dylid cymharu mesur y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r mesur Capio 9 wedi newid ers y llynedd (lleihawyd nifer y gofynion pwnc-benodol), felly ni ellir ei gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nodir cyrhaeddiad yn y prif fesurau eraill isod.

| Mesur | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Sgôr Pwyntiau Llythrennedd | 39.1 | 39.4 | 39.0 |
| Sgôr Pwyntiau Rhifedd | 37.9 | 38.3 | 37.2 |
| Sgôr Pwyntiau Gwyddoniaeth | 39.0 | 36.8 | 36.8 |
| Sgôr Pwyntiau'r Dystysgrif Her Sgiliau | 28.6 | 36.5 | 36.4 |

Fodd bynnag, dangosyddion interim yw'r dangosyddion hyn, ac mae'n bwysig i ni ystyried sut y cânt eu defnyddio i gefnogi cynnydd pob dysgwr.

*Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim*

Ym mhob un o'r pum prif fesur, mae dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dal i berfformio'n well na'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:

| Mesur | Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim | Disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim | Bwlch |
|---|---|---|---|
| Mesur Capio 9 | 298.9 | 376.2 | 77.3 |
| Sgôr Pwyntiau Llythrennedd | 32.5 | 41.4 | 8.9 |
| Sgôr Pwyntiau Rhifedd | 29.5 | 39.7 | 10.2 |
| Sgôr Pwyntiau Gwyddoniaeth | 28.3 | 39.8 | 11.5 |
| Sgôr Pwyntiau'r Dystysgrif Her Sgiliau | 29.5 | 39.1 | 9.6 |
| Lefel 2 cynwysedig | 28.4% | 60.5% | 32.1 |
| 5 A*-A | 5.0% | 21.2% | 16.2 |

Lle y bu mesurau perfformiad etifeddol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ar waith ers cyfnod hwy, ac er gwaethaf newidiadau a wnaed o bryd i'w gilydd i'r dull ar gyfer cyfrifo'r mesurau, bu'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gymharol gyson. Y prif eithriad yw trothwy Lefel 1 (canran y disgyblion sy'n cyflawni 5 x cymhwyster TGAU (neu gyfwerth) gradd A*-G), y mae'r bwlch ar ei gyfer fwy neu lai wedi haneru o tua 18 pwynt yn 2006/07 i tua 9 pwynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad**

***Dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim***

Mae'n gwbl annerbyniol bod amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd plant yn dylanwadu ar eu llwyddiant. Yn sail i'n holl waith mae cred na ddylai ble mae plentyn yn byw, ei gefndir, nac incwm ei rieni ddylanwadu ar ei allu i gael budd o addysg.

Ystyrir bod dros 18% o blant yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae'n hanfodol bod cyllid eu hysgolion yn cyfateb i'n hymrwymiad i sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau addysgol gorau. Ers ei gyflwyno yn 2012, rydym wedi rhyddhau mwy na £475 miliwn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG), sydd wedi helpu cyfwerth â thros 530,000 o blant a phobl ifanc i wireddu eu potensial. O flwyddyn i flwyddyn, rydym wedi ymestyn y PDG, ac mae bellach yn cefnogi nifer fwy byth o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed. Yn ogystal â'r elfen prydau ysgol am ddim, mae darpariaeth y PDG bellach yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, y rhai sydd yn y blynyddoedd cynnar a'r rhai sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw darpariaeth yn yr ysgol.

Ers cyflwyno'r PDG yn 2012, cynhaliwyd gwerthusiad tair blynedd (2013/14-2015/16) er mwyn cadarnhau effeithiolrwydd y grant. Cynhaliwyd gwerthusiadau diweddarach hefyd o'r elfen Plant sy'n Derbyn Gofal ac elfen y Blynyddoedd Cynnar. Nod y tri gwerthusiad oedd rhoi sicrwydd bod y cyfnod gweithredu cychwynnol wedi mynd rhagddo fel y bwriadwyd. Canfu gwerthusiad IPSOS Mori o'r PDG fod llawer o ysgolion o'r farn bod y cyllid yn 'amhrisiadwy', a bod cynnydd da wedi'i wneud wrth nodi anghenion dysgwyr dan anfantais a'u diwallu.

Bellach, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau ar waith i olrhain a monitro cynnydd eu dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u dysgwyr sy'n derbyn gofal. Bydd hyn oll yn golygu y gellir cynnal gwaith dadansoddi cadarnach yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried sut y gallwn weithio gydag ysgolion er mwyn manteisio i'r eithaf ar y data a gesglir ac atgyfnerthu'r trefniadau monitro ar gyfer gwerthusiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ffactor wrth ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer y PDG.

Ochr yn ochr â'r gwerthusiadau annibynnol tymor hwy, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi systemau ar waith i gynnal gwaith monitro rheolaidd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- ein Heiriolwr Codi Cyrhaeddiad;
- cyfarfodydd bob hanner tymor rhwng swyddogion a chynghorwyr PDG strategol y consortia, sy'n canolbwyntio ar weithredu, monitro effaith a mentora cymheiriaid.

Yn rhinwedd ei swydd fel Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad, mae Syr Alasdair Macdonald yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion ledled Cymru. Mae gwybodaeth a phrofiad helaeth Syr Alasdair, sy'n cynnwys ei gyfnod fel hyrwyddwr Her Ysgolion Cymru, yn ei alluogi i gynnal gwerthusiadau parhaus a nodi arferion gorau. Mae hyn yn darparu asesiad amser real i ysgolion a Chynghorwyr PDG ar lefel weithredol, yn wahanol i'r oedi sy'n gysylltiedig â gwerthusiadau a threfniadau casglu data ffurfiol. Rwyf yn cyfarfod â Syr Alasdair ddwywaith y flwyddyn i drafod ei ganfyddiadau a sut y gellir eu defnyddio i wella arferion ledled Cymru.

Mae'r broses o benodi cynghorwyr PDG strategol wedi gwella rôl y consortia rhanbarthol wrth ysgogi cynnydd yn y maes hwn. Caiff y cynghorwyr eu cefnogi a'u tywys gan Syr Alasdair. Bydd eu ffocws ar anghenion dysgwyr dan anfantais yn atgyfnerthu'r cymorth a roddir i ysgolion. Ein nod yw sicrhau y gall y cynghorwyr gael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys arferion gorau, gwaith ymchwil a data, er mwyn gwella cyrhaeddiad ein dysgwyr mwyaf agored i niwed. Yn bwysig, mae'n ofynnol iddynt atgyfnerthu eu trefniadau cydweithio

ledled Cymru er mwyn sicrhau y caiff arferion da eu rhannu a'u datblygu. Un enghraifft o hyn yw'r gyfres o seminarau dysgu proffesiynol ar gyfer pecyn cymorth EEF y mae cynghorwyr PDG yn ei hwyluso ledled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at arferion gorau.

Byddwn hefyd yn parhau i gynnal trafodaethau ag arbenigwyr yn y maes er mwyn pennu dichonoldeb asesu gwerth am arian cyllid PDG. Ni lwyddodd rhaglenni tebyg fel y Premiwm Disgybl i ymgymryd â gwaith o'r fath, felly byddwn yn ystyried pa ddulliau addas a all fod ar gael ar gyfer cynnal y gwaith asesu hwn.

***Dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr***

Camdybir nad yw dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn perfformio cystal â dysgwyr o gefndir Prydeinig gwyn. Dengys ystadegau cyrhaeddiad o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion fod y rhan fwyaf o ddysgwyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn perfformio'n well na'u cyfoedion Prydeinig gwyn ym mhob cyfnod allweddol o'u haddysg. O ganlyniad, nid ydym yn canolbwyntio ar fesur y bwlch cyrhaeddiad.

Mewn perthynas â data cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, rhaid i ni fod yn ofalus gan fod y niferoedd yn fach iawn a bod y data am y grŵp hwn yn amrywio'n sylweddol, felly nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau cadarn. Serch hynny, mae'r data cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymhlith yr isaf o bob grŵp.

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddarparu gwasanaethau i helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Darperir £10 miliwn i Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr (MEGRT) yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a neilltuwyd £10m yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gall awdurdodau lleol benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ardal eu hawdurdod lleol o fewn telerau ac amodau'r grant. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cynlluniau cymorth sy'n nodi sut maent yn bwriadu defnyddio'r grant i helpu'r grwpiau hyn o ddysgwyr ac i nodi deilliannau penodol er mwyn gwella eu cyrhaeddiad, a gaiff eu cymeradwyo gan y tîm yn Llywodraeth Cymru cyn rhyddhau'r cyllid. Fodd bynnag, mae'r meysydd canlynol yn cynnig enghreifftiau o sut y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i roi cymorth:

- datblygu arbenigedd ac arferion da mewn ysgolion yng Nghymru a'u rhoi ar waith – drwy wasanaethau awdurdodau lleol ac mewn ysgolion unigol;
- caffael iaith;
- cyfleoedd addysg i ddysgwyr a'u teuluoedd;
- meithrin dealltwriaeth o ddiwylliant a hunaniaeth.

Er bod y cyllid hwn ar gael, nid dim ond arian sydd ei angen er mwyn ymdrin ag achosion o dangyflawni ymhlith dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rydym yn cydnabod bod sicrhau y gall ysgolion adnabod a deall diwylliant y cymunedau hyn yn well, er mwyn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth a chynnig dull gweithredu hyblyg, yn un o'r meysydd allweddol y mae angen ei wella. Gall hyn wneud i deuluoedd deimlo'n fwy hyderus ynglŷn ag anfon eu plant i'r ysgol.

Er mwyn helpu ysgolion yn hyn o beth, rydym wrthi ar hyn o bryd yn llunio'r fersiwn derfynol o ganllawiau newydd, sy'n cynnwys enghreifftiau o arferion gorau a strategaethau llwyddiannus o bob cwr o Gymru o ran sut i wella'r broses o ymgysylltu â dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u lefelau presenoldeb.

***Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu***

Mae gan bob plentyn yng Nghymru – gan gynnwys y rheini sy'n derbyn gofal a'r rheini a fu'n derbyn gofal – yr hawl i ddisgwyl addysg ardderchog, ni waeth beth fo'i amgylchiadau. Bydd llawer o blant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal wedi wynebu trawma a straen cyn cael eu derbyn i'r system ofal. Bydd llawer wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, a bydd pob un ohonynt wedi wynebu newidiadau teuluol sylweddol. Bydd yr amgylchiadau hyn yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd plentyn, gan gynnwys addysg.

Rydym yn cydnabod y gall cyrhaeddiad addysgol da arwain at sefydlogrwydd, sicrwydd a bywyd annibynnol a boddhaus yn y dyfodol. Dyna pam ein bod wedi darparu tua £5 miliwn bob blwyddyn i helpu plant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal drwy PDG-LAC.

Y consortia rhanbarthol sy'n gweinyddu'r grant hwn, ar y cyd ag awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r cyllid yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pedwar 'Cydgysylltydd Arweiniol Rhanbarthol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal': un i bob un o'r consortia. Mae'r dull gweithredu hwn yn galluogi'r consortia, mewn partneriaeth ag ysgolion ac awdurdodau lleol, i bennu'r ymyriadau strategol mwyaf effeithiol i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal, ni waeth pa newidiadau y byddant yn eu hwynebu o ran eu gofal nac o ran lleoliadau ysgol.

Yn ddiweddar, rydym wedi rhoi trefniadau newydd a chryfach ar waith ar gyfer PDG-LAC. Gwnaed hyn mewn ymateb i nifer o ffactorau – gan gynnwys canlyniadau TGAU siomedig yn 2017 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'r gwerthusiad annibynnol o'r PDG-LAC sydd bellach wedi'i gyhoeddi ac argymhellion adroddiad '*Cyrraedd y nod?*' y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. (Yn 2017, dim ond 12% o'r plant a oedd yn derbyn gofal a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 cynwysedig, o gymharu â 23% yn 2016 a 20% yn 2018). Nod y trefniadau newydd yw galluogi gwell cysondeb cenedlaethol er mwyn cyflawni'r deilliannau addysgol gorau i'r plant hyn.

Mae ein cynllun tair blynedd ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd, *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, wedi dod i ben. Gwnaethom weithio'n agos gyda phartneriaid i roi camau gweithredu'r cynllun ar waith, ac mae'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion a ddeilliodd o hynny bellach wedi cael eu rhoi ar waith ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys penodi cydgysylltwyr arweiniol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mhob consortiwm rhanbarthol.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal ym maes addysg ac yn bwriadu adeiladu ar y cynnydd a wnaed, drwy ystyried modelau ar gyfer dull gweithredu integredig ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi ymgysylltu ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o fyd addysg, gwasanaethau cymdeithasol a phobl ifanc â phrofiad o'r system ofal, i ystyried a datblygu blaenoriaethau addysg ar gyfer y dyfodol. Os cytunir ar y gyllideb ddrafft, byddwn yn dyrannu £900k yn 2020-21 i ymgymryd â gwaith archwiliadol pellach ar ddull gweithredu integredig er mwyn helpu plant sy'n derbyn gofal ym maes addysg. Fel rhan o hyn, rydym wedi comisiynu ymarfer cwmpasu i ystyried modelau integredig, Ysgolion Rhithwir a dulliau gweithredu system gyfan ymhellach, fel sail ar gyfer dull gweithredu i Gymru.


**Cyllid i wella ysgolion a chodi safonau**

Yn olaf, gwnaethoch holi ynghylch cyllid i wella ysgolion. Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb, mae cyllideb 2020-21 yn seiliedig ar ymrwymiad i lwyddiant a llesiant pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir na'i amgylchiadau

personol ac wedi'i hategu gan ein hymrwymiad i hawliau plant. Mae'n cynnwys cyllid grant sylweddol i wella ysgolion a chodi safonau, er mwyn helpu i roi'r cwricwlwm newydd a'i bedwar amcan galluogi ar waith. Ac mae'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £100 miliwn er mwyn codi safonau ysgolion, dros dymor y Cynulliad hwn, gyda mwy na hanner y buddsoddiad hwn wedi'i flaenoriaethu i wella addysgu a dysgu, gan gydnabod mai ein hathrawon yw ein cyfryngau unigol gorau i sicrhau newid a gwelliannau yn yr ystafell ddosbarth.

Ochr yn ochr â'r buddsoddiad hwn, rydym yn gweithredu cynllun strategol tair blynedd clir, er mwyn rhoi'r trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd cadarn a ddisgrifir uchod ar waith. Gyda'r cynllun a'r adnoddau priodol, gallwn sicrhau llwyddiant cenhadaeth ein cenedl, gan godi safonau i bob plentyn a pherson ifanc.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg